O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1225 (Cy.159)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Pope Hill, Johnston, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *5 Mai 2011*

Yn dod i rym *16 Mai 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Pope Hill, Johnston, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 16 Mai 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr " y darn o'r gefnffordd"*("the length of the trunk road"*) yw'r darn o'r A4076 Hwlffordd - Aberdaugleddau, Pope Hill, Johnston, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Brickhurst Park i bwynt 1800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.